# SUL CYFFREDIN 21

**JEREMEIA 32:1-3A, 6-15; SALM 91:1-6, 14-16;
1 TIMOTHEUS 6:6-19; LUC 16:19-31**

● **Gweddi agoriadol**

Dduw grasol,
gwyddost ein hanghenion,
darlleni ein meddyliau,
gweli i'n calonnau
ac eto ein derbyn fel rydym.
Bydd yn ganolbwynt ein haddoli,
yn bopeth ein gweddi
a'r un y trown ato
yn ein cyfarfod heddiw.

● **Moliant**

Dduw ein tŵr,
cysgod mewn storm a thrwbwl,
nerth pan ballo hyder,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Dduw ein Gwaredwr,
rhyddhawr o'r bywyd sy'n ein clymu,
y maddeuant a geisiwn,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Dduw ein noddfa,
sylfaen y dibynnwn arni,
y fendith a rannwn nawr,
derbyn ein hoffrwm moliant.

● **Cyffes**

Bendithion bob dydd –
bwyd i'w fwyta,
dillad i'w gwisgo,
bodlonrwydd gyda phopeth sydd gennym,
prun ai'n gyfoethog neu dlawd –
dyna fywyd yn dy deyrnas.

Mor anodd
yw cerdded y ffordd hon
pan fo'r byd yn ein temtio
gyda chymaint a ddeisyfwn
ond heb fod eu hangen.
Maddau ein gwendid
a dysga ni eto
i brofi'r bodlonrwydd
o gael dim ond digon
ac o rannu
nid yn unig o lawnder
ond o brinder hefyd.

## ● Diolch

Am bawb a aeth o'n blaenau,
cerdded y llwybr a droediwn
a, thrwy eu hesiampl,
anogaeth,
geiriau doeth ac addysg,
sydd wedi arwain eraill i'th deyrnas,
cyflwynwn ein diolch cywir.

Am bawb sydd, drwy eu gweithredu,
wedi rhoi eraill o flaen hunan,
a dangos ystyr
haelioni a chariad,
yn rhoi o'u cyfoeth
ac o'u tlodi,
cyflwynwn ein diolch cywir.

Gweddïwn yn enw'r un a roddodd
bopeth, er mwyn i ni ddeall
gwir werth ein bywyd
ac ennill cyfoeth
y byd a ddaw,
Iesu Grist, ein Harglwydd.